

Cafcass Cymru

Adroddiad blynyddol 2021-2022

I blant a phobl ifanc



Neges gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru



Diolch am roi o'ch amser i edrych ar ein hadroddiad, gobeithio y bydd yn ddiddorol i chi. Nod yr adroddiad yw rhoi gwybod i chi beth wnaethon ni rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2022 ac ychydig am beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud y flwyddyn nesaf. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr adroddiad hwn, hoffem ni glywed gennych ac mae rhai dolenni ar ddiwedd yr adroddiad hwn i roi gwybod i chi sut y gallwch chi gysylltu â ni. Rydyn ni hefyd wedi ychwanegu geirfa ar y diwedd i esbonio rhai o'r geiriau rydyn ni'n eu defnyddio yn yr adroddiad.

Fel y flwyddyn ddiwethaf, roedd eleni yn flwyddyn anodd arall i Cafcass Cymru wrth i ni symud yn araf o gyfyngiadau llawn COVID-19 i ffordd fwy arferol o weithio. Gwnaethon ni ddechrau agor swyddfeydd yn raddol a mynd nôl i gwrdd â phlant a phobl ifanc wyneb yn wyneb er i ni orfod stopio gwneud hyn weithiau wrth i gyfradd heintiau COVID-19 godi.

Er gwaethaf hyn, rwy'n falch iawn fod ein staff ym mhob ardal wedi dod o hyd i ffyrdd newydd o wneud eu gwaith ac wedi gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i gwrdd â phlant a'u teuluoedd mewn ffordd a oedd yn ddiogel i bawb.

Yn ystod y flwyddyn hon, dechreuodd y Cynllun Peilot Braenaru yn y gogledd, sef ffordd newydd o weithio gyda theuluoedd sy'n cael profiad o achosion cyfraith breifat. Caiff y cynllun peilot dwy flynedd hwn ei brofi er mwyn newid y ffordd y mae llysoedd teulu yn gweithio yng ngoleuni'r Adroddiad Niwed (A) (Asesu'r Risg o Niwed i Blant a Rhieni mewn Achosion Plant Cyfraith Breifat).

Datblygiad newydd arall oedd bod aelodau'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol (FJYPB) wedi ymuno â'n Pwyllgor Cynghori. Mae'r Bwrdd hwn wedi gwneud cyfraniad enfawr i Cafcass Cymru erioed ac rydw i'n falch iawn eu bod nhw bellach yn aelodau parhaol o'n Pwyllgor Cynghori.

Yn olaf, er ein bod ni wedi gweld cynnydd graddol unwaith eto yn nifer y plant a theuluoedd rydyn ni wedi gweithio gyda nhw, gyda chyfanswm o 11,543 o blant, sef cynnydd cyffredinol o 4% ar y flwyddyn ddiwethaf, mae ein staff wedi parhau i gyflwyno gwasanaeth amserol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac felly, ni fu oedi yn y cyfnod y bu'n rhaid i unrhyw blentyn aros am wasanaeth gan Cafcass Cymru.

Ein Gwasanaeth (Beth a wnawn ar gyfer plant, teuluoedd a'r llysoedd)

Gwnaethon ni weithio gyda **11,543** o blant a phobl ifanc eleni.



I'r teuluoedd y gwnaethon ni weithio gyda nhw fel rhan o Gyfraith Breifat (lle mae angen rhywfaint o help ar rieni neu warcheidwaid i ddatrys gyda phwy mae'r plant/pobl ifanc yn byw neu'n treulio amser), roedden ni'n ymwneud â nhw am ryw

27
wythnos

34
wythnos


ac, fel rhan o Gyfraith Gyhoeddus (pan fydd gwasanaethau plant yn poeni am ddiogelwch plant/pobl ifanc) roedden ni'n ymwneud â nhw am

Felly, gallwch weld nad ydym yn rhan o fywydau'r plant am amser hir iawn fel rheol, yn wahanol i wasanaethau eraill fel gweithwyr cymdeithasol neu weithwyr cymorth, a allai fod yn rhan o'ch bywydau am fisoedd neu flynyddoedd weithiau.


Mae ein hyrwyddwyr cyfraith gyhoeddus (rhai o'r aelodau staff sydd â'r diddordeb mwyaf yn y maes gwaith hwn) wedi bod yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol (a elwir yn wasanaethau plant hefyd) er mwyn gwneud gwelliannau i'r gwaith a wnawn ni gyda'n gilydd. Mae pob un ohonon ni am wneud yn siŵr ein bod yn gweithio yn y ffordd orau y gallwn ni gyda phlant a'u teuluoedd, felly mae gweithio gyda sefydliadau eraill i wirio beth wnaethon ni yn ein helpu i wneud yn siŵr ein bod ni'n gwella drwy'r amser.



Yn ystod y flwyddyn hon, gwnaethon ni hefyd ddiweddarau ein gwefan a'r llythyrau a anfonwn i roi gwybod i bobl pa wasanaethau eraill sydd ar gael i'w helpu, pryd y byddan nhw'n cymryd rhan yn y llys teulu a gwnaethon ni ddiweddarau ein manylion cyswllt ar wefannau asiantaethau eraill fel Dewis Cymru, er mwyn i bawb allu dod o hyd i ni'n haws.



Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol



Mae gennym berthynas gref gyda Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol (FJYPB) ac maent wedi parhau i chwarae rhan bwysig yn ein cefnogi eleni. Gallwch ddysgu mwy am yr FJYPB a'r hyn maen nhw'n ei wneud trwy ddilyn y [ddolen](#).

Rydym bob amser yn hoffi gofyn am gefnogaeth ar sut i wella ein gwasanaeth ac eleni, buom yn gweithio gyda'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol i wneud yn siŵr bod y ffordd yr ydym yn gweithio gyda theuluoedd — o bell ac wyneb yn wyneb — yn dal yn addas. Hefyd, gwnaethon ni ofyn am eu cyngor nhw ar y ffordd rydyn ni'n gofyn i blant a phobl ifanc am bethau fel rhyw, hil, anabledd.


Rydyn ni wedi parhau i anfon blogiau ac 'Awgrymiadau Defnyddiol' a gafodd eu hysgrifennu gan aelodau'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol at ein holl staff i'w darllen.

Mae aelodau'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol hefyd wedi ein helpu eleni i gyfweld â llawer o bobl newydd a oedd am weithio i Cafcass Cymru.

Gwnaethon ni hefyd ofyn am adborth ar ein hadroddiad blynyddol i blant a phobl ifanc y llynedd a gobeithio, bod adroddiad eleni hyd yn oed yn well ar ôl gwrandao ar eu cyngor nhw!

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at weithio ar yr holl bethau rydyn ni wedi'u cynllunio gyda'r Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol y flwyddyn nesaf. Mae rhai o'r pethau hyn yn cynnwys:


- Hyfforddiant i'n timau cymorth busnes.
- Gweithdai ar y ffordd y gallwn roi gwybodaeth i blant a phobl ifanc am ein staff cyn iddyn nhw gwrdd â nhw.
- Mynd i gynadleddau ei gilydd.
- Adborth gan bobl ifanc ar y bwrdd am ein llythyrau a'n taflenni gwybodaeth newydd.



Ein Staff (pobl sy'n gweithio i Cafcass Cymru)




Roedd methu â gweld pobl wyneb yn wyneb oherwydd COVID-19 yn her fawr iawn i ni ac er ein bod ni wedi dechrau cwrdd â phobl unwaith eto, mae dal angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n cadw pawb, gan gynnwys ein staff, mor ddiogel â phosibl.



Beth rydyn ni wedi'i wneud eleni wneud yn siŵr bod hyn wedi digwydd?

Gwnaethon ni'n siŵr bod ein staff i gyd wedi cytuno i beidio ag ymweld ag unrhyw un oes oeddent yn teimlo'n anhwylyd neu os oeddent yn byw gyda rhywun a oedd yn anhwylyd gyda COVID-19.

Gwnaethon ni weithio gyda'r llysoedd teulu a sefydliadau eraill i wneud yn siŵr y gallai ein staff barhau i weithio gartref a lle roedd modd, gwnaethon nhw ymuno mewn rhai cyfarfodydd ac achosion llys o bell gan ddefnyddio'u gliniaduron a'u ffonau.



Ein Rhanddeiliaid (pobl neu sefydliadau rydyn ni'n cael help ac adborth ganddyn nhw)

Yn ystod y pandemig, pan nad oedd ganddon ni hawl i adael ein cartrefi, gwnaethon ni weithio'n agos iawn gyda llawer o sefydliadau eraill i wneud yn siŵr ein bod yn dal i ddarparu gwasanaeth cystal ag y gallen ni. Rydyn ni'n falch o fod wedi llwyddo i weithio gyda chymaint o bobl wahanol ar lawer o brosiectau gwahanol yn ystod y cyfnod hwn. Mae rhai o'n rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Y llys teulu.
- Y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Er bod ganddon ni bellach hawl i gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb â phobl, rydyn ni wedi dysgu y gallwn ni weithiau wneud pethau'n well drwy gwrdd â phobl yn amlach ac mai'r ffordd y gallwn ni wneud hynny orau yw drwy gyfarfod o bell, heb i neb orfod teithio gormod o gwmpas y wlad.

Rydyn ni wedi cael llawer o gyfarfodydd â'n rhanddeiliaid yn ystod y flwyddyn hon i sefydlu llawer o ffyrdd newydd a gwahanol o weithio a gobeithio, ffyrdd gwell o weithio, er enghraifft:

- Mathau newydd o lysoedd teulu, ffyrdd newydd o rannu ein gwybodaeth yn electronig.




Golwg i'r dyfodol

Ein Gwasanaeth

Dros y flwyddyn nesaf, bydd llawer o waith yn cael ei wneud i helpu pob un ohonon ni i barhau i adfer o effeithiau'r pandemig. Bydd llawer o newidiadau eraill mewn Cyfraith Teulu hefyd, a byddwn ni'n gweithio gyda'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol ar y rhain.

Daw rhai o'r syniadau gorau am y ffordd y gallwn barhau i wella ein gwasanaeth gan y bobl rydyn ni'n gweithio'n uniongyrchol gyda nhw, fel chi! Felly, helpwch ni i wneud ein rhan ni i chi yn iawn drwy roi eich barn i ni (gallwch weld isod sut i wneud hyn), bydden ni wir wrth ein bodd yn clywed gennych chi.



Ein Staff

Byddwn ni hefyd yn parhau i wrando ar yr hyn mae ein staff yn ei ddweud wrthon ni. Er ein bod wedi'u cefnogi i wneud eu gwaith cystal ag y gallen nhw yn ystod y pandemig, byddwn ni'n parhau i ddarparu cymorth iddyn nhw er mwyn iddyn nhw allu gweithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ffyrdd sy'n teimlo'n iawn i'r plentyn neu'r person ifanc unigol, o bell neu wyneb yn wyneb.



Ein Rhanddeiliaid

Mewn rhai ffyrdd, cafodd ein cydberthnasau â'n rhanddeiliaid eu gwneud yn well drwy gyfarfod o bell oherwydd rydyn ni wedi cwrdd yn fwy aml â nhw nag y gallen ni fod wedi'i wneud pe bydden ni wedi gorfod teithio i gyfarfodydd. Byddwn ni'n gwneud yn siŵr ein bod yn dal i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid, gan edrych ar y ffyrdd gorau o ymgysylltu â nhw, ond hefyd â'r bobl bwysicaf rydyn ni'n gweithio gyda nhw, sef y plant a'u teuluoedd. Bydd hyn yn helpu pob un ohonon ni i ffurfio gwasanaethau newydd a gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwella'r gwasanaethau rydyn ni eisoes yn eu darparu.



Peidiwch ag anghofio rhoi eich adborth i ni os ydych chi'n cymryd rhan gyda ni — neu os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar yr adroddiad hwn!



DOLEN I BLANT



DOLEN I BOBL IFANC

Rhestr Termau

Adroddiad y Gwarcheidwad

Bydd y llys teulu'n gofyn i warcheidwad y plant ysgrifennu adroddiad er mwyn ei helpu i wneud penderfyniadau am blentyn neu berson ifanc. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am ddymuniadau a theimladau'r plentyn ynghyd ag argymhelliad gan y gwarcheidwad plant ynglŷn â beth sydd orau i'r plentyn, yn eu barn nhw. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth gan y bobl eraill sy'n ymwneud â hi fel y rhieni ac unrhyw unigolion eraill fel arbenigwyr.

Awdurdod Lleol (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel gwasanaethau plant neu wasanaethau cymdeithasol)

Y sefydliad yma sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod pob plentyn a pherson ifanc yn eu hardal leol yn cael eu cadw'n ddiogel gan y bobl sy'n gofalu amdany'n nhw.

Cafcass Cymru

Sefydliad yw hwn sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd, ac sydd wedyn yn cynghori'r llys teulu ar beth sydd er lles pob plentyn yn ei farn ef.

Comisiynydd Plant Cymru

Mae'n cefnogi plant a phobl ifanc i gael gwybod beth yw eu hawliau dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac mae ganddo'r pŵer i hyrwyddo newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cyfraith breifat

Cyflwynir yr achosion hyn i'r llys teulu gan unigolion preifat, fel arfer mewn cysylltiad ag ysgariad neu rieni'n gwahanu. Gall y llys teulu wneud gorchymyn trefniadau plentyn, gorchymyn camau gwaharddedig neu orchymyn materion penodol neu ddim gorchymyn o gwbl.

Cyfraith gyhoeddus

Cyflwynir achosion cyfraith gyhoeddus i'r llys teulu gan awdurdodau lleol lle maent yn poeni nad yw plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal diogel. Gall y llys teulu wneud gorchymyn gofal, gorchymyn goruchwyllo neu ddim gorchymyn o gwbl.

Cymorth Busnes

Gweithwyr sy'n rhoi trefn ar yr holl lythyrau, negeseuon ebost, galwadau ffôn ac sy'n gwneud yn siŵr bod unrhyw adroddiadau'n mynd i'r lle iawn yw'r rhain. Maen nhw hefyd yn gwneud yn siŵr bod manylion pobl yn gywir ar ein system gyfrifiadurol.

Llysoedd Braenaru

Dull cwbwl wahanol i gyfraith breifat. Ei nod, yn anad dim, yw ceisio hyrwyddo dull 'diogelwch yn gyntaf', sy'n golygu y bydd yr achosion hynny sy'n gofyn amdano, yn cael cymorth y llys, cymorth i'w harwain drwy gyfnodau o argyfwng a lleihau gwrthdaro.

Llys teulu

Dyma lle y caiff penderfyniadau pwysig eu gwneud am blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'n wahanol i lysoedd troseddol lle bydd pobl yn mynd pan fyddan nhw wedi gwneud rhywbeth o'i le o bosibl. Caiff penderfyniadau yn y llys teulu eu gwneud gan farnwyr neu ynadon pan fydd angen help ar bobl i gytuno ar beth sydd orau i blentyn neu berson ifanc.

Pwyllgor Cynghori

Grŵp o bobl sy'n cynnwys aelodau o randdeiliaid gwahanol. Rydyn ni'n rhoi gwybod iddyn nhw beth rydyn ni'n yn ei wneud a pha mor dda rydyn ni'n ei wneud, ac maen nhw'n dweud wrthon ni os oes angen i ni wneud rhywbeth yn well neu'n wahanol.

Rhanddeiliad

Unigolyn neu grŵp o bobl sydd â budd mewn unrhyw benderfyniad neu weithgaredd sefydliad. Heb eu cymorth nhw ni all sefydliad fodoli.

Staff Cafcass Cymru

Yn dibynnu ar yr hyn mae'r llys teulu wedi gorchymyn Cafcass Cymru i'w wneud, gall y gweithiwr (sy'n cael ei adnabod weithiau fel ymarferwr neu swyddog) gael ei adnabod fel cyngorydd llys teulu neu warcheidwad plentyn, neu gall fod yn aelod o'n timau cymorth busnes.

Ymgynghorydd Llys Teulu

Weithiau gall y llys teulu ofyn i Ymgynghorydd Llys Teulu gyfarfod â phlentyn neu bobl ifanc i siarad am eu dymuniadau a'u teimladau ac i sicrhau bod y llys teuluol yn clywed yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Mae'r Ymgynghorydd Llys Teulu hefyd yn rhoi eu barn i'r llys am yr hyn sydd orau i'r plentyn. Does dim angen i Ymgynghorydd Llys Teulu gwrdd â phob plentyn a pherson ifanc oherwydd weithiau gall teuluoedd gytuno eu hunain ar yr hyn sydd orau.